**Adran Cyfoeth Naturiol**
**Department for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MB-CS 4387/14

At: bob Prif Swyddog Cynllunio

03 Tachwedd 2014

Annwyl Gydweithiwr

**FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO**

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi am gyflwyno'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Mae'r Fframwaith yn rhoi offeryn i fonitro perfformiad awdurdodau cynllunio lleol mewn nifer o feysydd gwasanaeth cynllunio allweddol ar sail gyson, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cynllunio o ansawdd uchel yn cael eu darparu'r barhaus.

Fis Rhagfyr diwethaf, fel rhan o'r Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch Fframwaith Perfformiad drafft a oedd yn nodi cyfres o ddangosyddion arfaethedig i fonitro perfformiad awdurdodau yn erbyn mesurau gwasanaeth allweddol. Ers mis Rhagfyr mae'r dangosyddion drafft wedi cael eu mireinio mewn trafodaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

**Cyflymu penderfynu ar geisiadau**

Cyflymder, ynghyd ag ansawdd, yw prif elfennau ein mesur o berfformiad rheoli datblygu. Mae'r cyfnod penderfynu o 8 wythnos yn dal i fod yn bwysig. Ond wrth gadw'r targed hwn i'w benderfynu, rydym wedi gwneud yr addasiadau canlynol:

- Ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu ar gais cynllunio, os yw wedi penderfynu rhoi caniatâd yn amodol ar drafod Cytundeb Adran 106; ac

- Ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu ar gais cynllunio "mewn pryd", os yw'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r cyfnod o amser a nodir mewn Cytundeb Perfformiad Cynllunio, neu estyniad a gytunwyd i'r cyfnod penderfynu.

Gyda'i gilydd, rwy'n hyderus y bydd y newidiadau hyn yn rhoi ystyriaeth i waith gan awdurdodau cynllunio lleol i ddelio â materion cynllunio cymhleth, o fewn cyfnod o amser a ystyrir yn rhesymol gan yr ymgeisydd.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Yr Is-adran Gynllunio
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Planning.division@wales.gsi.gov.uk
planning.division@cymru.gsi.gov.uk

**Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai ceisiadau mawr a mwy cymhleth gael eu penderfynu weithiau y tu allan i'r cyfnod statudol o 8 wythnos. Felly, mewn ymateb i awgrymiadau gan randdeiliaid, bydd dau ddangosydd newydd yn cael eu cyflwyno:

- yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar bob cais; a'r
- yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau mawr.

**Gosod targedau**

Bydd meincnodi yn cael ei wneud cyn y gellir gosod targedau ar gyfer y dangosyddion newydd. Bydd y targedau hyn yn cael eu datblygu mewn trafodaeth gyda rhanddeiliaid maes o law.


**Gweithredu**

Bydd yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu yn cael ei ddiwygio i gynnwys meysydd ar gyfer cofnodi'r dangosyddion newydd. Bydd y rhain wedyn yn cael eu bwydo i mewn i'r Fframwaith Perfformiad, a gyhoeddir yn flynyddol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae dangosyddion y Fframwaith, a'r ffynonellau data, yn cael eu cyflwyno yn fwy manwl yn y tabl yn **Atodiad A.**

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn rhan o ddadansoddiad ehangach o ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol. Mae mesurau eraill yn cynnwys y dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a chanfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol yr awdurdod.

Gyda'i gilydd, mae'r tair elfen hyn yn ffurfio sail ar gyfer Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cyflwyno hunanasesiad pob awdurdod o'i berfformiad cyffredinol ei hun, ac yn olrhain y camau y bydd pob awdurdod yn eu cyflawni i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cynllunio.

Yn gywir



**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd
Cyfarwyddiaeth Cynllunio
Yr Adran Cyfoeth Naturiol

## FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO:
## DANGOSYDDION, TARGEDAU A FFYNONELLAU DATA

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch Fframwaith Perfformiad drafft, a oedd yn nodi cyfres o ddangosyddion arfaethedig a ddefnyddid i gyflwyno perfformiad awdurdodau yn erbyn mesurau gwasanaeth allweddol. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, mae'r ddogfen hon yn nodi'r dangosyddion Fframwaith Perfformiad terfynol fel yr oeddent ar 10 Hydref, 2014, yn y fformat canlynol:

| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r dangosydd perfformiad | Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n dda yn yr agwedd benodol hon o ddarparu gwasanaeth, gan fodloni a rhagori ar ddisgwyliadau. Mae gan yr awdurdod ddull cadarn o ddarparu gwasanaeth ar waith. | Mae'r awdurdod yn perfformio i safon resymol yn yr agwedd hon ar ei wasanaeth, er bod cyfle o hyd i'r agwedd hon ar ei wasanaeth gael ei gwella yn unol ag enghreifftiau o arfer gorau sydd ar gael gan rai awdurdodau eraill. | Mae perfformiad yr awdurdod yn yr agwedd benodol hon ar gyflenwi ei wasanaeth yn is na disgwyliadau defnyddwyr y gwasanaeth a Gweinidogion Cymru, a'r safon a gyflenwir gan awdurdodau cynllunio eraill. Dylid buddsoddi ymdrech i fynd i'r afael â'r diffyg hwn o ran cyflenwi gwasanaethau. | Y ffynhonnell y bydd perfformiad yr awdurdod yn erbyn y dangosydd hwn yn cael ei dynnu ohoni, ynghyd ag unrhyw sylwadau am newidiadau i'r dangosydd |

| **GWNEUD CYNLLUNIAU** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Mae cynllun datblygu (CDLl neu'r CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun | | Nid oes unrhyw gynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys lle mae'r cynllun wedi dod i ben) | Trefn fonitro Cynlluniau Datblygu Lleol yr Is-adran Gynllunio |
| Y gwyro wrth baratoi CDLl oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddatblygu o fewn 12 mis ar ôl y dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddatblygu o fewn rhwng 12 a 18 mis ar ôl y dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddatblygu fwy na 18 mis y tu ôl i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol | Trefn fonitro Cynlluniau Datblygu Lleol yr Is-adran Gynllunio |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Mae'n bryd i Adroddiad Monitro Blynyddol gael ei gyhoeddi, ac mae wedi cael ei baratoi | | Mae'n bryd i Adroddiad Monitro Blynyddol gael ei gyhoeddi, ac nid yw hyn wedi digwydd | Trefn fonitro Cynlluniau Datblygu Lleol yr Is-adran Gynllunio |
| Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | Mae gan yr awdurdod gyflenwad o dir ar gyfer tai o fwy na 5 mlynedd | Mae gan yr awdurdod gyflenwad o dir ar gyfer tai o rhwng 4 a 5 mlynedd | Mae gan yr awdurdod gyflenwad o dir ar gyfer tai o lai na 4 blynedd | Trefn fonitro Cynlluniau Datblygu Lleol yr Is-adran Gynllunio |

**ATODIAD A**

| EFFEITHLONRWYDD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
| Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae'r diffiniad o ddyddiad penderfynu wedi ei adolygu, felly nid oes targedau wedi cael eu gosod |
| Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES NEWYDD** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |
| Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | Mae mwy na 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod statudol | Mae rhwng 60% ac 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol | Mae llai na 60% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES NEWYDD** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |

| **ANSAWDD** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
| Canran o benderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - bydd nifer y penderfyniadau a wnaed o dan bwerau dirprwyedig yn cael ei adrodd o fis Ionawr 2015, ac yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r ffigur newydd hwn |
| Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | Mae mwy na 66% (deuparth) y penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae rhwng 55% a 66% o benderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae llai na 55% o benderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Ystadegau'r Arolygiaeth Gynllunio |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | Nid yw'r awdurdod wedi cael costau wedi'u dyfarnu yn ei erbyn mewn apêl | Mae'r awdurdod wedi cael costau wedi'u dyfarnu yn ei erbyn mewn un achos apêl | Mae'r awdurdod wedi cael costau wedi'u dyfarnu yn ei erbyn mewn dau neu fwy o achosion apêl | Ystadegau'r Arolygiaeth Gynllunio |

**ATODIAD A**

| **YMGYSYLLTU** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
| A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio | | Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio | Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr awdurdod cynllunio lleol |
| A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd | | Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael | Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr awdurdod cynllunio lleol |
| A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gallai aelodau'r cyhoedd gyrchu ati, olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Mae'r dogfennau i gyd ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid gofyn am fynediad at ddogfennau eraill yn uniongyrchol | Nid oes unrhyw wybodaeth am geisiadau cynllunio yn cael ei chyhoeddi ar-lein | Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr awdurdod cynllunio lleol |

**ATODIAD A**

| **GORFODI** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Da"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Teg"** | **Perfformiad a ystyrir fel un "Gwael"** | **Ffynhonnell Data a sylwadau** |
| Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd torri rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a oedd camau gorfodi yn addas) o fewn 84 diwrnod | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES NEWYDD** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES NEWYDD** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |
| Canran yr achosion gorfodi lle mae camau gorfodi'n cael eu cymryd neu y mae cais ôl-weithredol yn cael ei dderbyn o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd gorfodi'n addas) | *Targed i'w meincnodi* | *Targed i'w meincnodi* | *Targed i'w meincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES SYDD WEDI NEWID** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | *Targed i'w feincnodi* | Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu - mae hwn yn **FAES SYDD WEDI NEWID** i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 |